# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Mencap Cymru (Aberaeron)**

**Hen Orsaf Heddlu**
**Sgwâr Alban**
**Aberaeron**
**SA46 0AQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Mencap Cymru (Aberaeron)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Frenhinol Mencap |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Awst 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y cymorth effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y maent yn ei gael. Caiff unigolion eu cefnogi gan staff cymwys a phrofiadol, sy'n eu galluogi i gyflawni canlyniadau rhagorol a byw mor annibynnol â phosibl. Mae'r bobl yn cael eu hannog i gael eu cynnwys cymaint â phosibl yn y penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.

Mae rheolwr y gwasanaeth yn cael ei gefnogi gan dri rheolwr cynllun, ac mae pob un ohonynt yn hygyrch ac yn cael eu parchu gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac yn gweithio yno. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol ac mae'n cwblhau adroddiadau gyda chamau gweithredu manwl i wella ansawdd, yn dilyn ei ymweliadau chwarterol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth wedi'u teilwra'n bersonol atynt. Caiff yr unigolion eu hannog i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r rheolwyr yn cynnwys y bobl, eu cynrychiolwyr, y staff gofal a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu ac adolygu'r cynlluniau personol, sy'n canolbwyntio ar y pethau pwysig sydd o bwys i bob unigolyn.

Mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n cael effaith ar eu bywydau ac yn cael eu cefnogi'n effeithiol i weithio tuag at eu nodau unigol. Mae'r staff yn parchu'r bobl ac yn cymryd amser i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *"The staff are great, they've known him for years and they know him so well".* Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n anelu at 'Gynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'r gwasanaeth yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau cynhwysol i'w helpu i gyfathrebu.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed gan fod y prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael sesiynau sefydlu cynhwysfawr a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn diogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon.

Mae gan y bobl lais gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys yn yr ymweliadau Rheoliad 73 chwarterol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu galluogi'n effeithiol i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Cant eu cefnogi gan dîm angerddol o staff, sy'n adnabod y bobl yn dda ac yn deall eu hanghenion. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym; *"I never worry about coming into work because the people we support are so lovely".* Mae'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y gwasanaeth. Dywedodd un wrthym; *"It's the best thing that ever happened to him, he's come along so much and he's developed so much independence".*

Mae'r gweithwyr cymorth yn dilyn cynlluniau personol electronig sy'n gywir ac yn gyfredol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'r bobl. Mae'r staff yn cymryd amser i ddod i adnabod y bobl, yn deall eu hanghenion ac yn eu hannog i wneud cymaint drostynt eu hunain â phosibl. Dywedodd gweithiwr wrthym *"We focus on independence and we only help with the bits people can't do; they do the rest".* Caiff y bobl eu cefnogi'n effeithiol i barhau'n aelodau gweithgar o'u cymuned leol, i weithio, i fynychu digwyddiadau cerddoriaeth neu chwaraeon, i ymgymryd ag addysg ac i gynnal cysylltiad agos â'u teulu a'u ffrindiau.

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y maent am ei gyflawni. Mae'r rheolwyr hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr yr unigolion, y gweithwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol allanol i sicrhau bod y wybodaeth yn ddefnyddiol. Wrth drafod y cynlluniau personol, dywedodd gweithiwr cymorth wrthym *"We get involved in the reviews every 3 months and we get updated when there are changes".* Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a roddwyd a nodir gwybodaeth achlysurol o safbwynt yr unigolyn. Dywedodd rheolwyr y gwasanaeth wrthym eu bod yn bwriadu gwella ansawdd yr adroddiadau hyn i ddangos tystiolaeth o'r canlyniadau cadarnhaol y mae'r bobl yn eu cyflawni.

Mae niferoedd digonol o staff medrus a phrofiadol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr cymorth wedi gweithio yn y gwasanaeth ers blynyddoedd, yn deall arddulliau cyfathrebu unigol y bobl ac wedi meithrin cydberthynas gadarnhaol â'r bobl a'u cynrychiolwyr.

Mae gan y darparwr Ddatganiad o Ddiben a Chanllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth sy'n gyfredol, ac sydd ar gael i'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr. Caiff gwybodaeth hygyrch ei rhoi i'r bobl am y gwasanaeth ac am bynciau fel cynhwysiant a diogelwch tân. Mae polisïau ar waith i arwain y staff, a gweithdrefnau i hyrwyddo arferion diogel.

## Yr Amgylchedd

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau effeithiol iawn ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella'r gwasanaeth. Mae gwybodaeth ar gael i'r uwch-reolwyr ar ffurf electronig, a gallant wirio ansawdd a gwneud argymhellion pan fo angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud ag ansawdd â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Mae adroddiad yr ymweliad yn cofnodi'r trafodaethau hyn ac yn nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i wella'r gwasanaeth. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis yn defnyddio adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr, a gwybodaeth o archwiliadau mewnol.

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn dda gan reolwr y gwasanaeth a thri rheolwr cynllun. Mae'r rheolwyr yn canolbwyntio ar yr unigolion ac yn galluogi'r staff i helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae gan y bobl a'u cynrychiolwyr hyder yn rheolwyr ac uwch-staff y gwasanaeth. Wrth drafod y rheolwyr, dywedodd cynrychiolydd, *“[Scheme manager] is on the ball, they always respond to me and answers any of my questions”.* Mae'r gweithwyr cymorth yn gadarnhaol iawn am yr arweiniad a gânt gan eu rheolwyr ac uwch-dîm arwain y darparwr. Wrth drafod y rheolwyr, dywedodd gweithiwr wrthym *"They give us full support, they are the best bosses I've ever worked with*".

Mae'r gweithwyr cymorth yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cael arfarniad blynyddol er mwyn datblygu eu sgiliau personol a phroffesiynol. Mae'r staff yn gwerthfawrogi'r hygyrchedd a'r cymorth gan eu rheolwyr. Dywedodd un wrthym *“Supervision is good but we're well supported all of the time and they (managers) have their finger on the pulse”.* Mae'r uwch-reolwyr yn cynnal amrywiaeth o ymweliadau lle rhoddir rhybudd ac ymweliadau dirybudd er mwyn gwirio ansawdd y gwasanaeth. Wrth drafod y gwiriadau hyn, dywedodd gweithiwr gofal wrthym *“[Service Manager] will just call in unannounced and always asks how we are. She always makes sure she talks to the guys and asks if we need anything”.* Mae trafodaethau â'r gweithwyr cymorth yn dangos dealltwriaeth dda o'r broses ar gyfer rhoi gwybod am bryderon a diogelu. Mae gweithdrefnau a pholisïau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol ohonynt.

Cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio, caiff gwiriadau cyn cyflogi fel geirdaon, gwiriadau hawl i weithio a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu cynnal. Caiff staff newydd gyfnod sefydlu cynhwysfawr ac maent yn dod i adnabod y bobl cyn iddynt weithio'n annibynnol. Mae hyfforddiant gorfodol parhaus a hyfforddiant sy'n benodol i'r unigolyn yn helpu'r gweithwyr cymorth i ddiwallu anghenion unigol y bobl yn effeithiol. Mae'r rheolwyr yn helpu'r staff i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn eu hannog i feithrin sgiliau pellach drwy gymwysterau proffesiynol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/10/2023